

Public Document Pack

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Bridgend County Borough Council



Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.
Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich
dewis iaith.*

*We welcome correspondence in Welsh. Please
let us know if your language choice is Welsh.*



Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate

Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643147 / 643694

Gofynnwch am / Ask for: Gwasanaethau

Democrataidd

Ein cyf / Our ref:

Eich cyf / Your ref:

Dyddiad/Date: Dydd Mawrth, 7 Gorffennaf 2020

Annwyl Cynghorydd,

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL

Cynhelir Cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol o bell trwy Skype ar **Dydd Llun, 13 Gorffennaf 2020 am 14:00.**

AGENDA

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.
2. Datganiadau o fuddiant
Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.
3. Cymeradwyaeth Cofnodion 3 - 24
I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion acyfarfod y 20/1/2020, 4/2/2020 a 13/2/2020
4. Sefydlu Panel Adferiad Trawsbleidiol - Pandemig Covid-19 25 - 30
Gwahoddedigion
Mark Shephard – Prif Weithredwr
Cynghorydd HJ David - Arweinydd
5. Diweddariad Rhaglen Gwaith 31 - 34
6. Materion Brys

Ffôn/Tel: 01656 643643

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

Facs/Fax: 01656 668126

Twitter@bridgendCBC

Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk

Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk

Cyfnwidi testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Yn ddiffuant

K Watson

Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio

Dosbarthiad:

Nodyn: Nodyn: Sylwch: Yn sgil yr angen i gadw pellter cymdeithasol, ni fydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn ei leoliad arferol. Yn hytrach, bydd hwn yn gyfarfod rhithwir a bydd Aelodau'r Pwyllgor a Swyddogion yn mynychu o bell. Bydd y cyfarfod yn cael ei recordio i'w ddarlledu ar wefan y Cyngor ar ol i'r cyfarfod orffen. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643147 / 643148.

Cynghowrwy

JPD Blundell
NA Burnett
N Clarke
J Gebbie

Cynghorwyr

T Giffard
CA Green
M Jones
RL Penhale-Thomas

Cynghorwyr

KL Rowlands
RMI Shaw
JC Spanswick
T Thomas

Agenda Item 3

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD LLUN, 20 IONAWR 2020

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD LLUN, 20 IONAWR 2020, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd CA Green – Cadeirydd

NA Burnett
RL Penhale-Thomas

N Clarke
RMI Shaw

T Giffard
JC Spanswick

M Jones
T Thomas

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

JPD Blundell, J Gebbie a/ac KL Rowlands

Swyddogion:

Michael Pitman
Tracy Watson

Swyddog Gwasanaethau Democraidd – Pwyllgorau
Swyddog Cymorth Craffu

Gwahoddedigion:

Cynghorydd Huw David
Gill Lewis
Martin Morgans

Arweinydd
Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro
Pennaeth Gwasanaeth - Perfformiad a Gwasanaethau
Partneriaeth
Prif Weithredwr

148. DATGAN BUDD

Dim

149. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25/09/2019 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir a bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 07/11/2019 yn cael eu cymeradwyo yn amodol ar gael gwared ar y frawddeg yn eitem 3, paragraff 9 ar yr agenda "Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol".

150. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2020-21 I 2023-24

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro adroddiad i'r Pwyllgor gyda'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig drafft 2020-21 i 2023-24, a oedd yn nodi blaenoriaethau gwario'r Cyngor, amcanion buddsoddi allweddol a meysydd cyllideb a dargedwyd ar gyfer arbedion angenrheidiol. Roedd y strategaeth yn cynnwys rhagolwg ariannol ar gyfer 2020-2024 a chyllideb referniw ddrafft fanwl ar gyfer 2020-21.

Darparodd y Cynllun Corfforaethol-Cyd-destun Polisi a Naratif y Gyllideb fel y nodir yn adran 3 o'r adroddiad.

Darparodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro'r Trosolwg Ariannol Corfforaethol a oedd yn dangos bod y Cyngor wedi gwneud gostyngiadau o £68 miliwn yn y gyllideb yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae'r graff a 3.3.2 yr adroddiad yn gynrychiolaeth weledol o'r gostyngiadau o flwyddyn i flwyddyn.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro fod y setliad yn well na'r disgwyl, a'i fod yn 4.7%, sy'n gynydd o £8.878 miliwn. Dywedodd, fodd bynnag, y byddai hyn yn cael ei daro gan y dyfarniad cyflog athrawon.

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro fanylion Perfformiad Ariannol y flwyddyn gyfredol (2019-20). Roedd Tabl 1 yr adroddiad yn cymharu'r gyllideb yn erbyn yr alldro rhagamcanol ar 30 Medi 2019.

Dywedodd mai'r sefyllfa gyffredinol a ragwelwyd ar 30 Medi 2019 oedd tanwariant net o £575,000, gan gynnwys £659,000 o orwariant net ar gyfarwyddiaethau a £4.808 miliwn o danwariant ar gyllidebau corfforaethol, wedi'i wrthbwysu gan ddyraniadau net o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd o £3.574 miliwn.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro fod Tabl 2 yr adroddiad yn dangos y cynigion MTFs sy'n cael eu cefnogi gan Gronfa Hapddigwyddiad ar gyfer Lleihau Cyllideb MTFs yn 2019-2020. Byddai lefel yr adolygiad hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y swyddog yn Adran 151 yng ngoleuni'r anawsterau a ragwelwyd wrth gyflawni cynigion penodol i leihau'r gyllideb yn y dyfodol.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro fod Tabl 3 yr adroddiad yn dangos y newid canrannol yn AEF o ran Senarios MTFs. Roedd Tabl 4 yn dangos gofyniad posibl y cynghorau i leihau'r gyllideb net ar sail yr amlen adnoddau a ragwelwyd, rhagdybiaethau gwariant anorfod a chynnydd tybiedig yn y Dreth Gyngor.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro fod Tabl 5 yr adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran mynd i'r afael â'r gofyniad mwyaf tebygol o ran lleihau'r gyllideb, sef £39,332 miliwn. Dywedodd fod yn dal angen i'r Cyngor ddatblygu cynigion gwerth £21.1 miliwn a bod ystod o ddewisiadau yn cael eu hystyried, gan gynnwys:

- Trawsnewid gwasanaethau ehangach y Cyngor yn ddigidol
- Cyfleoedd i gynhyrchu incwm
- Mwy o ostyngiadau yn nifer y cyflogeion
- Gweithio gyda phartneriaid i drosglwyddo asedau a diogelu cyfleusterau cymunedol
- Gweithredu'r Model Landlord Corfforaethol ymhellach.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro fod Tabl 6 yn dangos y cynigion ar gyfer lleihau'r gyllideb a'u categoreiddio, gyda bron i ddwy ran o dair o'r arbedion arfaethedig yn deillio o ddefnyddio adnoddau'n ddoethach. Roedd Tabl 8 yn dangos Cyllideb Refeniw Ddrafft 2020-21 a dadansoddiad o gyllidebau'r gyfarwyddiaeth Gwasanaethau.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro'r manylion am gyflogau, prisiau a demograffeg. Dywedodd fod corff trafod y Cyngor Uno Cenedlaethol wedi cyflwyno hawliad cyflog ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu ar gyfer 2020-21 ac mae'r trafodaethau'n parhau. Gan ddibynnu ar ganlyniad y trafodaethau, dywedodd y gallai fod pwysau ychwanegol ar y Gyllideb y byddai'n rhaid i'r Cyngor eu bodloni. Ychwanegodd y byddai unrhyw ddyfarniad cyflog ychwanegol i athrawon sydd i'w roi ar waith o fis Medi 2020 ymlaen yn achosi pwysau ychwanegol. Rhestrwyd rhagor o fanylion am y pwysau ar y gyllideb yn adran 4 o'r adroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Cyllid Dros Dro am yr adroddiad a dywedodd fod y ffaith bod y setliad yn well na'r disgwyl yn ochenaid o ryddhad.

Dywedodd un Aelod fod toriadau ym mhob maes heblaw am ysgolion. Roedd aelodau o'r cyhoedd wedi dangos diddordeb mewn diogelu meysydd chwaraeon felly pam roedd

toriadau yma ac nid mewn ysgolion. Ymatebodd yr Arweinydd drwy ddweud bod ysgolion eisoes wedi wynebu toriadau mawr yn y gorffennol gydag athrawon a rheolwyr yn cael eu diswyddo, sydd wedi cael effaith ar ganlyniadau addysg mewn rhai ysgolion. Dywedodd fod yr ymgynghoriadau cyhoeddus bob amser yn amlinellu barn y cyhoedd eu bod yn dymuno amddiffyn ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol.

Dywedodd un Aelod ei bod yn teimlo bod ysgolion yn faes pwysig iawn i'w warchod gan fod addysg yn bwysig o ran helpu plant i fod y gorau y gallant fod. Roedd hi'n poeni nad oedd yr awdurdod lleol yn sicrhau bod gan bob ysgol yr adnoddau i reoli eu cyllidebau'n briodol oherwydd y diffygion niferus.

Dywedodd un aelod fod undebau llafur wedi nodi codiad cyflog posibl o 10% a gofynnodd sut mae'r trafodaethau'n mynd rhagddynt. Dywedodd yr Arweinydd eu bod yn parhau i fynd rhagddynt gan mai ar lefel genedlaethol yn hytrach na lefel leol yr oedd hynny. Dywedodd y byddai angen ariannu unrhyw ddyfarniad cyflog yn llawn er mwyn sicrhau nad oedd yn dod ar draul gwasanaethau neu swyddi.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro fod yr amserlen ar gyfer y dyfarniad cyflog wedi bod yn hir ac na chawn gadarnhad yn ei gylch tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn mae'n debyg. Ychwanegodd y tybiwyd bod cynnydd o 2% yn debygol ac y byddai'r swm angenrheidiol ar gyfer hyn yn cael ei neilltuo.

Ar dudalen 7 yr adroddiad, dywedodd Aelod bod lefel isaf y cynnydd yn y dreth gyngor a nodwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus 2% yn uwch na'r hyn a ddewiswyd mewn gwirionedd, a gofynnodd am eglurhad o'r rheswm dros hyn.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro mai'r rheswm bod y cynnydd yn is na'r dewisiadau a roddwyd yn yr ymgynghoriad oedd oherwydd bod y setliad yn uwch na'r disgwyl. Daeth yr ymgynghoriad i ben cyn i ni dderbyn y setliad ac roedd y ffigurau'n seiliedig ar yr hyn yr oeddem yn disgwyl ei gael, nid yr hyn a gawsom mewn gwirionedd.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid rhoi ymwadiad ar waelod y tablau sy'n nodi y gallai'r ffigurau newid os bydd y setliad yn newid.

Eglurodd un Aelod fod angen gwella'r berthynas â Chynghorau Tref a Chymuned a bod Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT) yn hanfodol. Roedd yn credu bod y swyddog CAT yn gweithio'n galed ond nad oedd yn cael y gefnogaeth yr oedd ei hangen arno.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn cydnabod bod angen gweithio mwy ar y broses CAT a'i fod yn gweithio ar achos busnes i'w gyflwyno i'r CMB. Cytunodd fod angen mwy o gydweithio rhwng Cynghorau Tref a Chymuned hefyd a bod angen adolygu'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned er mwyn sicrhau bod canlyniadau swyddogol yn deillio ohono.

Dywedodd un Aelod nad yw swyddogion yr heddlu yn ei ystyried yn flaenoriaeth yn lleol i ddiogelu adeiladau a bod angen i ni atgyfnerthu ein perthynas â Heddlu De Cymru a sicrhau bod digon o ganolbwytio ar ddinasyddion a'r gymuned.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai Heddlu De Cymru yn cael eu gwahodd i'r Cyngor er mwyn i Aelodau allu holi cwestiynau a mynegi pryderon.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ar y toriadau arfaethedig i hyfforddiant Aelodau. Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol nad oedd hyfforddiant Aelodau byth yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial a bod y toriadau yn y gyllideb honno yn ei gostwng i'r lefel yr oedd yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd.

Gofynnodd Aelod pa effaith fyddai'r cynnig yn CEX1 – efallai y bydd angen ailstrwythuro - yn ei chael ar y Gwasanaeth Rheoleiddio ar y Cyd. Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol mai'r rheswm am hyn yw oherwydd yr anhawster i recriwtio i'r SRS. Roedd hyn yn ostyngiad un tro ac ni fyddai'n rhan o'r arbedion y flwyddyn nesaf.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor:

1. Yn ystyried yr wybodaeth sydd yn yr adroddiad a'r atodiadau sydd ynghlwm
2. Yn gwneud sylwadau ac argymhellion i'w cydgrynhoi a'u cynnwys yn ei adroddiad i'r Cabinet, fel y nodir isod:

“Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r setliad cyllideb gwell, sydd wedi cael ei gyfeirio at le ffafriol.”

“O ran yr ymgynghoriad ‘Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr’, awgrymodd yr Aelodau y dylai'r Ymgynghoriad ar y Gyllideb yn y dyfodol gynnwys cafeat ar y gwaelod yn nodi 'petai'r setliad yn fwy hael, gallai hyn newid' neu rywbeth tebyg.”

151. GWEITHDREFN ADRODD AR DDIGWYDDIADAU A DIGWYDDIADAU A FU BRON Â DIGWYDD

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y digwyddiadau a'r digwyddiadau a fu bron â digwydd y rhoddwyd gwybod amdanynt i'r Swyddog Yswiriant a Risg eu hystyried yn ystod blwyddyn galendr 2019.

Nododd y cefndir a beth oedd yn cael ei ystyried fel diffiniad ar gyfer Digwyddiad a Digwyddiad a fu bron â digwydd fel y rhestrir yn adran 3 yr adroddiad.

Dywedodd fod y weithdrefn adrodd wedi'i chyflwyno yn dilyn adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar 17 Ionawr 2019, ac roedd copi o'r polisi ynghlwm yn Atodiad A yr adroddiad.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro fod tri 'digwyddiad a digwyddiad a fu bron â digwydd' wedi cael eu cofnodi ers Ionawr 2019, a bod dau ohonynt yn cael eu hystyried yn 'wyrdd' ac un yn cael ei ystyried yn 'oren'. Mae Atodiad B yn nodi manylion y digwyddiadau hyn.

Dywedodd fod y weithdrefn ar gyfer digwyddiadau a digwyddiadau a fu bron â digwydd yn cael ei nodi mewn neges e-bost Bridgenders yn gynharach yn y flwyddyn, gyda hyperddolen i'r weithdrefn. Tybiwyd y byddai'r Uwch Dîm Rheoli yn dosbarthu'r wybodaeth mewn cyfarfodydd rheolwyr er mwyn atgyfnerthu'r weithdrefn newydd, ond efallai nad oedd nifer yr achosion a gofnodwyd yn adlewyrchu'r achosion gwirioneddol yn gywir ac nad oedd pob rheolwr yn ymwybodol o'r weithdrefn.

Ychwanegodd fod mwy o risgiau a digwyddiadau a fu bron â digwydd yn cael eu hadrodd ond nad oedd y broses yn cael ei dilyn er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth berthnasol yn cyrraedd y swyddog yswiriant.

Mynegodd Aelod bryderon ynghylch gwallau dynol o ran digwyddiadau. Os oedd rhywbeth yn ddigon difrifol, efallai na fydd llawer o bobl am roi gwybod am hyn gan eu bod yn gwybod y gallent wynebu canlyniadau. Eglurodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro mai'r gobaith oedd y gallai'r drefn gynig gwersi i'w dysgu, yn hytrach na'i defnyddio i feio unigolion.

Gofynnodd Aelod pa mor gyflym y cafodd camau eu cymryd unwaith y roedd y ffurflen wedi'i llenwi. Dywedodd y Prif Weithredwr fod camau'n cael eu cymryd yn gyflym fel

arfer ond pwysleisiodd mai'r peth pwysicaf oedd dysgu o gamgymeriadau a gwneud yn siŵr nad oedd y materion yn digwydd eto yn y dyfodol.

Dywedodd un Aelod y gallai fod angen gwneud mwy o waith ar ein Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a sicrhau bod cyrff allanol fel SWP yn cymryd mwy o berchnogaeth o sefyllfaoedd ac yn sefydlu eu mesurau ataliol eu hunain.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi ystyried yr adroddiad ar ddigwyddiadau a digwyddiadau a fu bron â digwydd yn Atodiad B, a'i fod yn fodlon â'r camau i atal digwyddiadau rhag digwydd eto

Roedd yr Aelodau'n dymuno gwneud y sylwadau a'r casgliadau canlynol:

Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w ystyried.

Awgrymodd yr Aelodau y dylid darparu astudiaeth achos i ddangos sut mae'r broses wedi gweithio e.e. o lenwi ffurflen i gyfeiriad teithio.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd y byddai'r gweithdrefnau'n cael eu dilyn yn gadarn, ond nid mewn ffordd sy'n rhagfarnu.

152. PERFFORMIAD Y CYNGOR YN ERBYN EI YMRWYMIADAU YN CHWARTER 2 2019-20 (ADRODDIAD GWYBODAETH)

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o berfformiad y Cyngor o chwarter dau 2019-20.

Dywedodd fod y data a gasglwyd ar gyfer y ffurflenni hanner blwyddyn yn awgrymu bod y Cyngor ar y trywydd iawn i sicrhau 38 (93%) o'i ymrwymadau i'w dri amcan llesiant (gwyRDD) gyda rhywfaint o gerrig milltir y 3 (7%) arall ar goll (oren).

Yng nghyswllt y dangosydd cyntaf ar dudalen 95, nododd Aelod fod nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd gan staff cyfwerth ag amser llawn oherwydd absenoldeb salwch yn 11.79. A oes unrhyw beth wedi cael ei roi ar waith i fynd i'r afael â hyn.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod targed gwella bellach yn ei le a bod nifer o ymyriadau hefyd ar waith i fynd i'r afael â phroblemau fel straen a phryder. Dywedodd fod cyrsiau ymwybyddiaeth ofalgar wedi'u sefydlu yn ystod y misoedd diwethaf, yn ogystal â hysbysebu mynediad at gwnsela, a'i bod yn gyfforddus bod digon wedi'i roi ar waith i weld pa mor dda y byddant yn ei wneud. Ychwanegodd fod angen rhoi'r pwyslais ar y staff a sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u cadw mewn gwaith yn hytrach nag aros i staff fod yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch.

Gofynnodd Aelod a oedd pigladau fflw yn cael eu cynnig i aelodau staff. Dywedodd y Prif Weithredwr mai dim ond timau rheng flaen penodol fel y gwasanaethau cymdeithasol ac ati sy'n cael cynnig pigladau fflw ar hyn o bryd.

Dywedodd aelod fod tipio anghyfreithlon wedi cynyddu a'n bod wedi methu'r targed. Credai fod angen edrych ar y gwasanaeth gan nad oedd yn perfformio'n dda. Ychwanegodd y Cadeirydd fod y duedd wedi gostwng o'r un chwarter y llynedd, ond bod y pryderon yn dal yno gan fod yr awdurdod yn safle 21/22 o ran glendid priffyrdd.

Soniodd un aelod am nifer yr eiddo masnachol gwag ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gyda nifer ohonynt mewn cyflwr gwael. Gofynnodd a oedd modd i ni gymharu ag awdurdodau eraill. Esboniodd y Cadeirydd y gellid priodoli'r rhan fwyaf o hyn i dueddiadau siopa, h.y.

gyda siopa ar-lein yn dod yn fwyfwy poblogaidd. Dywedodd nad oedd landlordiaid wedi gostwng eu hardrethi o ganlyniad, ond y gallai hynny newid oherwydd eu bod yn cael eu gorfodi i dalu ardrethi busnes.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi nodi perfformiad corfforaethol hanner blwyddyn.

Roedd yr Aelodau'n dymuno gwneud y sylwadau a'r casgliadau canlynol:

O ran y DRE 6.6.4 Canran y gweithwyr sy'n cwblhau modiwlau e-ddysgu, holodd yr Aelodau pam fod y targed blynyddol wedi'i leihau o 45% yn 18/19 i 25% yn 19/20, o gofio bod y targed hwn yn cynnwys gofynion gorfodol e-ddysgu?

O ran DC 01.1.3 ii, DC 01.1.3 iii, DC 01.1.3 iv, awgrymodd yr Aelodau fod angen mwy o sylw yma, gan awgrymu darparu cymariaethau gyda threfi eraill, er mwyn cymharu tebyg at ei debyg.

O ran PAM/035, holodd yr Aelodau ynghylch y ffigur Qtr2 gwirioneddol, 2.67 diwrnod, ac ystyried bod y naratif yn nodi 'Mae hwn yn berfformiad da ac mae'n dangos gwasanaeth ymatebol'.

Holodd yr Aelodau a oedd nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon (PAM/035) yn effeithio ar ein targed glendid (PAM/010).

Mynegodd yr Aelodau bryder ynglŷn â'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (PAM/015, PSR009a a PSR009b), o ystyried nifer y diwrnodau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu grant.

153. ADRODDIAD ENWEBU HYRWYDDWR RHIANTA CORFFORAETHOL

Gofynnwyd i'r Pwyllgor enwebu Aelod newydd yn lle'r Cynghorydd C Webster fel ei Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol i gynrychioli'r Pwyllgor fel Aelod Gwahoddedig i gyfarfodydd Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet. Etholodd yr Aelodau'r Cynghorydd Nicole Burnett.

Holodd Aelod am gyfrifoldeb y rôl Rhiant Corfforaethol o ganlyniad i achos llys yng Nghaerdydd lle penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd gan Gynghorwyr gyfrifoldeb Rhianta Corfforaethol. Gofynnodd yr Aelod a fyddai modd rhoi eglurhad ar hyn gan fod yr wybodaeth wedi bod yn anghyson.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi enwebu'r cynghorydd Nicole Burnett fel Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol i gynrychioli'r Pwyllgor fel aelod gwahoddedig cynllun Rhianta Corfforaethol Pwyllgor y Cabinet.

154. Y DIWEDDARAF AM Y FLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd y Swyddog Craffu ddiweddariad ar y Flaenraglen Waith ar gyfer y Pwyllgor er mwyn ystyried eitemau a drefnwyd i'w trafod ar 24 Ionawr a 13 Chwefror 2020 a cheisio cael cadarnhad o'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer y cyfarfod dilynol, y bwriedir ei gynnal ar 23 Mawrth 2020.

Dywedodd y Swyddog Craffu y byddai'r eitem ar Ysgol Gynradd Tynyrheol yn cael ei chyflwyno ar 9 Mawrth, ond erbyn hyn roedd yr ysgol wedi dod allan o fesurau arbennig ac nid oedd yn ofynnol iddi ddod i'r Pwyllgor mwyach. Dywedodd fod yr eitem ar Deithio gan Ddysgwyr bellach wedi cael blaenoriaeth.

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD LLUN, 20 IONAWR 2020

Dyweddod y Swyddog Craffu fod Pen-y-bont ar Ogwr Ddi-blastig bellach wedi symud i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu 3 ar 18 Mawrth. Gofynnodd Aelod a fyddai modd gofyn i Swyddog Gweithrediadau'r Glanhawyr Strydoedd ddod i'r cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor:

1. Yn nodi'r wybodaeth ychwanegol yr oedd yn dymuno ei chael yng nghyswllt yr eitemau a drefnwyd ar gyfer 13 Chwefror 2020 gan gynnwys y gwahoddedigion yr oeddent yn dymuno iddynt fod yn bresennol yn Atodiad A
2. Yn cadarnhau'r eitemau sydd wedi'u blaenoriaethu a'u dirprwyo i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar Bwnc yn Atodiad B.

155. EITEMAU BRYD

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 12:30

This page is intentionally left blank

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MAWRTH, 4 CHWEFROR 2020, AM 09:30

Presennol

Y Cyngorydd CA Green – Cadeirydd

JPD Blundell
M Jones
T Thomas

NA Burnett
RL Penhale-Thomas

J Gebbie
KL Rowlands

T Giffard
JC Spanswick

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RMI Shaw

Swyddogion:

Mark Galvin
Meryl Lawrence
Rachel Pick
Andrew Rees
Tracy Watson

Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Pwyllgorau
Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Craffu
Swyddog Craffu
Rheolwr Gwasanaethau Democraidd
Swyddog Cymorth Craffu

Gwahoddedigion:

160. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

161. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2020 - 2021 I 2023 - 24 A'R BROSES YMGYNGHORI AR Y GYLLIDEB DDRAFFT

Diolchodd y Rheolwr Gwasanaethau Democraidd y Cadeirydd a dechreuodd y cyfarfod drwy gyflwyno'r ddau aelod newydd o staff craffu i'r Pwyllgor; yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd – Craffu, a'r Swyddog Craffu. Croesawyd y ddau i'r cyfarfod.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad terfynol y Panel Ymchwil a Gwerthuso'r Gyllideb a'r ymatebion gan yr holl Bwyllgorau Trosolwg Pwnc a Chraffu mewn perthynas â chynigion cyllideb drafft y Cabinet.

Mewn perthynas ag Atodiad A, derbyniodd yr Aelodau fân newidiadau.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod bod y dyddiad cau ar gyfer yr adroddiad yn ôl i'r Cabinet yn fyr, ond nodwyd lle y bo'n bosibl, y dylid ychwanegu'r eitem hon at ddiwedd cyfarfod Pwyllgor Corfforaethol a Throsolwg arall yn y dyfodol. Awgrymodd y Cadeirydd hefyd bod modd ystyried yr adroddiad hwn drwy e-bost, yn amodol ar holl Aelodau'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r adroddiad; fel arall, byddai'n rhaid galw cyfarfod ffurfiol.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn penderfynu cyflwyno'r argymhellion a amlinellwyd yn Atodiad A, yn amodol ar fân newidiadau, ac Atodiad B i'r Cabinet fel rhan o'r broses ymgynghori ar y gyllideb ddrafft.

162. URGENT ITEMS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:30

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWDYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 13 CHWEFROR 2020, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd CA Green – Cadeirydd

JPD Blundell
M Jones

NA Burnett
KL Rowlands

N Clarke
JC Spanswick

T Giffard

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

J Gebbie, RL Penhale-Thomas, RMI Shaw a/ac T Thomas

Swyddogion:

Meryl Lawrence
Tracy Watson

Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Craffu
Swyddog Cymorth Craffu

Gwahoddedigion:

Susan Cooper
Jackie Davies
Lindsay Harvey
Gill Lewis

Cynghorydd Dhanisha Patel
Mark Shephard
Cynghorydd Charles Smith
Nigel Smith
Kelly Watson

Cynghorydd Philip White

Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro
Aelod Cabinet - Lles a Chenedlaethau Dyfodol
Prif Weithredwr
Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio
Rheolwr Cyllid
Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio
Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

163. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

164. CYNLLUN CORFFORAETHOL 2018-2022 WEDI'I ADOLYGU AR GYFER 2020-21

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog A151 Interim wybod i'r aelodau yn gyntaf bod y Cynllun Corfforaethol wedi cael ei ddiweddarau ar gyfer 2020-21, yn dilyn proses cynllunio corfforaethol a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2019 a mis Ionawr 2020 gyda nifer o fewn y sefydliad yn rhan o'r broses, a oedd yn cynnwys proses gynhwysol o'r gwaelod i fyny ac o'r brig i lawr eleni. Yn ail, roedd llawer mwy o ffocws ar egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac, yn drydydd, roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar yr hyn yr oedd yr awdurdod yn ceisio'i wella a'r adnoddau yr oedd eu hangen, a oedd yn amlwg yn yr uchelgeisiau a oedd wedi'u nodi.

Cododd Aelodau'r mater nad oedd cyfeiriad penodol at y newid yn yr hinsawdd o fewn yr adroddiad ac roeddent yn teimlo, fel pwyllgor, bod hwn yn fater a oedd yn tyfu'n gyflym a bod angen dangos y sefyllfa yr oedd yr awdurdod ynddi. Nododd y Prif Weithredwr fod hyn yn amlwg yn rhywbeth a oedd wedi magu momentwm a chydabu hyn. Cadarnhaodd fod adroddiad yn mynd i gael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Ebrill.

Fe wnaeth un o'r aelodau nodi'r ffigyrau mewn perthynas â Digartrefedd ar Dudalen 10 a gofynnodd am gadarnhad o'r cynnydd sy'n cael ei wneud – a ydym yn helpu ein holl bobl ddigartref a phwy ydym yn eu hepgor? Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol ei bod hi wedi ymweld yn ddiweddar â darpariaethau Huggard a Thŷ Tresilian yng Nghaerdydd, ynghyd â'r Rheolwr Grŵp ar gyfer Tai a'r Pennaeth Gwasanaethau Partneriaeth a dywedodd ei bod yn cydnabod y berthynas â Chaerdydd yn ogystal â nodi'r darn parhaus o waith i weld sut y gellid cynnig darpariaeth o fewn y fwrdeistref.

Cydnabu'r Aelod hefyd fod pobl i'w cael nad oeddent yn gallu cael eu helpu ac a allai syrthio drwy'r rhwyd a gofynnodd beth oedd yn cael ei wneud. Cydnabu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod llawer o'r achosion hyn yn ymwneud â phobl â phroblemau iechyd meddwl, ond nododd fod llawer yn cael ei wneud i'w hatal rhag dod yn ddigartref yn y lle cyntaf. Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda'r rhai a oedd â phroblemau iechyd meddwl lefel is. O ran estyn allan yn y gymuned, roeddent yn cael help fel rhan o'u teuluoedd. Roedd hwn yn fater a oedd yn cael ei gefnogi nid dim ond gan y gwasanaeth tai.

Roedd un o'r aelodau o'r farn y dylai'r rhestr Addysg ar Dudalen 10 ddangos Ysgolion Cymraeg fel categori ar wahân.

Nododd un o'r aelodau fod y llinell olaf ar Dudalen 12 yn cyfeirio at le 'da' i bobl fyw, gweithio, astudio ac ymweld ac roedd o'r farn mai 'gwy' ddylai hyn fod. Cydnabu'r Prif Weithredwr hyn ond eglurodd mai'r her yw ceisio cael cyfatebiaeth rhwng yr uchelgais ar flaen y ddogfen a'r camau gweithredu yng ngweddill y ddogfen; fodd bynnag roedd yn hapus i wneud y newid a awgrymwyd.

Fe wnaeth un o'r aelodau nodi nifer o brosiectau a restrir ar dudalen 16, a fyddai'n cyflawni'r deilliannau i helpu Pen-y-bont ar Ogwr i ffynnu dros y tymor hir a gofynnodd faint o gynnydd oedd wedi cael ei wneud gyda'r prosiectau hyn, e.e. y Fargen Ddinesig. Fe wnaeth y Prif Weithredwr atgoffa'r aelodau a swyddogion mai rhaglen hirdymor oedd hon, lle na fyddai rhyw lawer yn digwydd yn y ddwy flynedd gyntaf, er iddo nodi bod rhai mentrau da wedi bod yn mynd rhagddynt. Cadarnhaodd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mawrth ar y Fargen Ddinesig. Teimlai y byddai o gymorth dwyn adroddiad gerbron i roi blas ar waith sy'n mynd rhagddo o ran Tasglu'r Cymoedd, Ford a.y.b. Fe wnaeth yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio nodi'r cyfeiriad ar Dudalen 16 at Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr, a theimlai y dylid hyrwyddo Pen-y-bont ar Ogwr fel lle i fuddsoddi ynddo, ond nododd fod llawer o fusnesau sy'n cael eu gwarchod yn glòs ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a oedd yn hapus felly.

Fe wnaeth un o'r aelodau nodi'r targedau ar Dudalen 19 mewn perthynas â 'Chanran y dysgwyr ym Mlwyddyn 1 a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg' a 'Nifer y Safleoedd Gwag yng Nghanol Trefi' a theimlai y dylai'r rhain fod yn realistig ac yn her. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod hyn yn ymwneud â nifer y dysgwyr, ac eglurodd wrth yr aelodau fod lleoedd gwag mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, felly bod cynnal y sefyllfa bresennol yn darged sy'n her ynddo'i hun. Eglurodd y Prif Weithredwr o ran safleoedd gwag bod hyn wastad yn fater o gadw'r ddysgl yn wastad ond bod cynnal y sefyllfa bresennol yn her weithiau. Nododd aelod arall hefyd y gallai'r cynnwys ar Dudalen 19 o dan 'safleoedd gwag' awgrymu bod arnom eisiau rhagor o siopau gwag ac felly bod angen rhagor o wybodaeth yn y blwch. Awgrymodd y Prif Weithredwr efallai y dylid cynnwys atodiadau gyda'r adroddiad i ddarparu rhywfaint o gyd-destun ar gyfer y cyhoedd mewn perthynas â rhai o'r mesurau. Awgrymodd un o'r

aelodau y byddai'n ddefnyddiol fel canran ym mhob canol tref, e.e. gallai 6 ym Mhen-coed fod allan o 7.

Cododd un o'r aelodau'r mater ynglŷn â diffyg ffigyrau cymharol yng Nghymru, a oedd yn golygu ei bod yn amhosibl gwybod ble'r ydym ni o'i gymharu ag awdurdodau eraill, o ran gwariant. Roedd ymchwil i'w gwneud, ond fe allai hyn fod yn fwy ystyrion i bobl eraill. Eglurodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog A151 Interim mai dyma oedd yr amcan, ond bod categoraiddio'r gwariant wedi dod yn amhosibl bron gan ei fod yn cael ei gyflunio mewn gwahanol ffyrdd. Rhoddwyd cynnig ar hyn trwy asesu gwariant. Yr hyn yr ydym yn ceisio'i wneud trwy'r gwahanol wasanaethau yw cael gwybodaeth mor fanwl â phosibl. Rydym wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru ynglŷn â chost, gan nad oedd dangosyddion costau ar gyfer y rhan fwyaf o Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ei fod yn cydnabod bod hwn yn gynllun a oedd yn canolbwyntio ar Ben-y-bont ar Ogwr, ond y gellid ychwanegu cyswllt â Fy Nghyngor o ran data cymharol.

Nododd un o'r aelodau fod y dangosydd ar dudalen 23 ar gyfer 'Nifer yr anheddau ychwanegol...eu defnyddio unwaith eto' i'w weld yn isel. Roedd un o'r aelodau o'r farn y gallai fod yn fuddiol aralleirio'r geiriad ar dudalen 25, 'datblygu sgiliau ac ymddygiadau staff'. Roedd un o'r aelodau o'r farn y dylai'r dangosydd mewn perthynas â 'Chanran y rheolwyr sy'n cwblhau'r Rhaglen Sefydlu Rheolwyr' ddangos targed. Cytunodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog A151 Interim i roi ystyriaeth i'r awgrymiadau hyn.

Bu'r aelodau'n trafod y dangosyddion mewn perthynas â Rheoli Coed ar dudalen 28 ac fe wnaethant nodi, er ei fod yn anodd i'w fesur, y gallai'r dangosydd hwn gael ei wella. Roedd y Prif Weithredwr yn cytuno bod hwn yn bwnc llosg ar hyn o bryd ac eglurodd fod cais wedi cael ei wneud am gyllid. Gallwn ddwyn rhywbeth gerbron y pwyllgor craffu. Dywedodd un o'r aelodau fod hwn hefyd yn fater y gellir ei godi gyda Chynghorau Tref a Chymuned. Bu'r Aelodau a'r Swyddogion yn trafod y cynllun 'Plannu coeden yn 73' ac fe awgrymon nhw hyrwyddo 'Plannu coeden cyn 23' a allai ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned ac ysgolion. Nododd y Prif Weithredwr mai'r her oedd taro'r cydbwysedd cywir gan bod angen gofalu amdanynt a'u cynnal a'u cadw. Dywedodd un o'r aelodau hefyd y dylem ni fel cyngor annog tiffeddianwyr a thrigolion i wneud hyn.

Nododd un o'r aelodau fod hwn yn gynllun da a oedd yn nodi gweledigaeth ac egwyddorion. Gofynnodd mewn perthynas â thudalen 34 'Gweithio gydag Eraill', a fyddai proses rheoli perfformiad o ran ein trefniadau gweithio mewn partneriaeth a pha rôl allai fod gan y pwyllgor craffu. Eglurodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog A151 Interim, o ran partneriaethau, eu bod nhw i gyd yn wahanol, a bod ganddynt drefniadau llywodraethu cwbl wahanol. Roedd hyn wedi cael ei drafod fel rhan o Asesu Perfformiad Corfforaethol. Yr allwedd yma oedd y byddent hwy i gyd yn gallu ein dwyn ninnau i gyfrif yn yr un modd, ond nodwyd fod hwn yn faes i'w ddatblygu ymhellach; sut ydym yn gwneud hynny'n rhan o drefniadau llywodraethu priodol. O ran Asesu Perfformiad Corfforaethol, mae gennym fesurau perfformiad a gyflwynir i'r bwrdd ac o ran y gwaith, byddai cyfleoedd i fwrw golwg ar Halo ac Awen. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod yr holl Gyfarwyddiaethau'n gweithio ar y Cynllun Busnes a oedd yn bwydo i mewn i'r Cynllun Corfforaethol. O ran Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf, roedd 4 aelod etholedig ac roedd sylw'n cael ei roi i Lywodraethu i'w wneud yn fwy effeithiol. Nododd ddarn o waith sydd ar ddod gan Lywodraeth Cymru ar waith byrddau partneriaeth. Awgrymodd un o'r aelodau efallai yr hoffai'r pwyllgor feddwl am wahodd pobl o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyfrannu at eitemau yn y dyfodol.

Roedd aelodau'n dymuno gwneud y sylwadau a dwyn y casgliadau canlynol:

Dyweddodd aelodau nad oedd mater cynyddol y Newid yn yr Hinsawdd wedi cael ei gynnwys yn y Cynllun Corfforaethol diwygiedig.

Fe wnaeth un o'r Aelodau sylw am wall yn y paragraff cyntaf a'r trydydd paragraff ar dudalen 8 yn y Cynllun Corfforaethol.

Gofynnodd Aelodau am gynnwys Ysgolion Cyfrwng Cymraeg yn y rhestr Addysg.

Gofynnodd Aelodau am ddiweddariad Briffio cyn y Cyngor am gynnydd gyda'r Fargen Ddinesig a Thasglu'r Cymoedd (a Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr)

Gofynnodd Aelodau am ddiwygio'r datganiad yn y frawddeg olaf ar dudalen 11 a 12 i: "...ein helpu i wneud y Fwrdeistref Sirol yn lle **gwych** i bobl fyw, gweithio, astudio ac ymweld".

Cwestiynodd aelodau'r ffaith bod y targed ar gyfer dysgwyr Cymraeg a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg yn llonydd ar dudalen 19 yn y Cynllun.

Gofynnodd aelodau am newid i ddarparu manylion y safleoedd gwag yng Nghanol Trefi fel canrannau ar Dudalen 19 yn y Cynllun.

Gwnaeth aelodau'r sylw ei bod yn anodd gweld sefyllfa'r Awdurdod o'i gymharu â Chyfartaledd Cymru wrth edrych ar y Siartiau Cylch. Roedd y Cynllun yn canolbwyntio ar Ben-y-bont ar Ogwr ond awgrymwyd y gellid ychwanegol cyswllt â Fy Nghyngor i'w gwneud yn bosibl gweld data cymharol.

Fe wnaeth aelodau gwestiynu'r targed ar gyfer nifer yr anheddau ychwanegol sy'n cael eu defnyddio unwaith eto, sef cynnydd o 2 yn unig eleni.

Roedd aelodau o'r farn y gallai'r ymadrodd ar Dudalen 25 yn y Cynllun: "...ymddygiadau staff" gael ei gamddehongli ac y dylid ei aralleirio.

Gofynnodd aelodau am sefydlu llinell sylfaen ar gyfer y targed o ran Canran y Rheolwyr sy'n cwblhau'r Rhaglen Sefydlu Rheolwyr a ddywedodd ei bod yn rhagorol neu'n dda ar dudalen 27.

Roedd aelodau o'r farn nad oedd y targed o 3 ar gyfer "Cyflawni cynlluniau i gynyddu gorchudd coed y Fwrdeistref Sirol" ar Dudalen 28 yn ddigon uchelgeisiol.

Gofynnodd aelodau am eglurhad o'r targed ar dudalen 28 mewn perthynas â 'Cyflawni rhaglen Rheoli Coed y Cyngor' gan eu bod yn meddwl ei bod yn annhebygol bod y camau gweithredu yn y rhaglen wedi'u cwblhau 100%.

Roedd aelodau'n cydnabod bod y Cynllun Corfforaethol yn Gynllun da ac yn nodi'r weledigaeth ac egwyddorion ac fe ofynnnon nhw sut y byddai'r perfformiad mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth yn cael ei reoli.

165. MONITRO'R GYLLIDEB 2019-20 – RHAGOLWG REFENIW CHWARTER 3

Fe wnaeth y Pennaeth Cyllid a Swyddog A151 Interim gyflwyno'r adroddiad i'r Aelodau gyda diweddariad am sefyllfa ariannol refeniw y Cyngor ar 31 Rhagfyr 2019. Fel cefndir, eglurodd fod y Cyngor, ar 20 Chwefror 2019, wedi cymeradwyo cyllideb refeniw net o £270.809 miliwn ar gyfer 2019-20. Roedd Tabl 1 yn dangos cymhariaeth rhwng y gyllideb a'r alldro rhagamcanol ar 31 Rhagfyr 2019. Roedd 4.1.2 yn dangos tanwariant

net o £798k ac roedd 4.1.3 yn dangos y rheswm dros y tanwariant. Roedd y Gostyngiadau yng Nghyllideb y Flwyddyn Flaenrol yn cael eu dangos o 4.2.1 ymlaen. Roedd Tabl 2 yn dangos, o'r £2.342 miliwn o ostyngiadau a oedd yn dal heb eu cyflawni, bod £1.795 miliwn yn debygol o gael eu cyflawni yn 2019-20, gan adael diffyg o £547k. Roedd adroddiad monitro'r gyllideb refeniw hyd at 31 Rhagfyr 2019 yn cael ei ddangos yn Atodiad 3.

Fe wnaeth un o'r aelodau nodi, ar dudalen 58 o'r adroddiad, bod cyllideb ddirprwyedig ysgolion yn dangos, yn Chwarter 3, bod 46% o'r holl ysgolion yn rhagfynegi cyllideb ddiffygiol a mynegodd bryder bod rhai ysgolion yn fwy cydnerth na'i gilydd ac y gallai hyn olygu, i rai ysgolion, bod disgyblion ar eu colled lle mae cyfleoedd trawsgwricwlaidd yn y cwestiwn. Cydnabu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod y ffigyrau'n adrodd stori gyda thros hanner ein hysgolion mewn cyllideb ddiffygiol. Mynegodd bryder bod gan oddeutu 3 neu 4 ysgol ddiffygion difrifol. Fodd bynnag, eglurodd fod Brynteg wedi gwneud yn wych i leihau ei diffyg a bod disgwyl y bydd yn mantoli'r gyllideb ond nododd fod hyn yn gryn her i ysgolion bach gan bod perthynas rhwng y gyllideb a niferoedd y disgyblion. Cadarnhaodd ei fod yn cwrrd â'r holl benaethiaid yn dymhorol ac eglurodd am y bwrdd perfformiad a monitro ariannol, sy'n mynd drwy'r gyllideb fesul llinell. Nododd fod grantiau cymorth ychwanegol ar gael hefyd.

Gofynnodd un o'r aelodau a oedd ysgolion hŷn dan anfantais o ran gwariant uwch ar gynnal a chadw, ac a oeddent yn cael yr un faint o gyllid. Eglurodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid fod pob ysgol yn cael cyllid ar sail arwynebedd y llawr yn bennaf; os yw ysgolion o faint tebyg maint yn cael swm tebyg, ond mae cyflwr yr adeilad yn cael ei gymryd i ystyriaeth hefyd, a adlewyrchir mewn pwysiad ffactor cyflwr. Roedd yn rhywbeth a oedd yn cael ei ystyried yn rheolaidd i wneud yn siŵr bod y cyllid yn cael ei dargedu ble mae ei angen, ac yn cael sylw gyda'r fforwm cyllid ysgolion i sicrhau bod cyllid yn deg.

Nododd un o'r aelodau fod y paragraff ar Blant sy'n Derbyng Gofal ar dudalen 61 yn nodi'n glir pam fod gorwariant. Gofynnodd beth oedd yn digwydd ledled Cymru a pha un a oedd unrhyw arweinyddiaeth yn dod gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo'r 22 o awdurdodau i reoli'r gweithgarwch caffael a pha un a ellid rhannu'r wybodaeth am arfer da. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod hwn yn faes sydd dan gryn dipyn o bwysau a bod y Cyngor wedi bod yn hynod gefnogol o ran Plant sy'n Derbyng Gofal a rheoli'r gyllideb. Yr hyn nad oedd yr adroddiad yn ei ddangos oedd yr ymdrech aruthrol i leihau'r gorwariant. Eglurodd am y model ar gyfer gwasanaethau preswyl (Maple Tree House) a chadarnhaodd fod 16 o blant gwahanol wedi bod trwy'r gwasanaeth a 6 o blant yn yr uned asesu, a fyddai wedi cael eu lleoli y tu allan i'r sir yn flaenrol a hynny am gost o £4k yr wythnos. Roedd hi'n gweithio gyda'r gwasanaeth tai i ddatblygu dewisiadau eraill gyda darparwyr lleol; roedd hyn yn ddefnydd da o'n grant tai cymdeithasol. O safbwynt cenedlaethol, roedd Plant sy'n Derbyng Gofal yn un o flaenoriaethau Prif Weinidog Cymru a'r Dirprwy Weinidog a gafodd wybod beth oedd y stori gyfan gan bob awdurdod lleol yn ddiweddar. Roedd y grŵp technegol Plant sy'n Derbyng Gofal yn dal i gwrdd. Roedd pob awdurdod lleol yn trafod strategaethau lleihau niferoedd Plant sy'n Derbyng Gofal. Roedd rhai materion mewn perthynas â CAMHS. Mae gan Lywodraeth Cymru brosiect sy'n bwrw golwg ar y rhain fel astudiaeth achos. Roedd hyn wedi cael ei drafod yn y pwyllgor rhianta corfforaethol. Roedd yr aelod yn dawlach ei feddwl o gael gwybod bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo yn Llywodraeth Cymru ond yn teimlo efallai y dylai Llywodraeth Cymru farchnata hyn ychydig yn fwy i aelodau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y byddai'n bwydo hyn drwy'r Pwyllgor Rhianta Corfforaethol.

Nododd un o'r aelodau fod Tudalen 60 yn cyfeirio at ôl-groniad o waith addasiadau – a ydym yn darparu adnoddau ar gyfer y maes hwn i'r fath raddau fel ein bod yn diwallu ei

anghenion yn llawn. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod gorwariant, gan ein bod yn gallu helpu rhagor o bobl er ei fod yn nodi ein bod wedi llwyddo i gael cyllid grant. Awgrymodd un o'r aelodau y dylid ceisio adnabod pot i fuddsoddi mewn gwario i arbed y gellid ei drin yn wahanol.

Gofynnodd un o'r aelodau sut ydym ni'n gwybod faint sy'n mynd drwy'r gwasanaeth mabwysiadu ar hyn o bryd? Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y byddai'n dod yn ôl gyda'r ffigyrau.

Nododd un o'r aelodau'r cyfeiriad ar dudalen 55 at y 'Cynllun Trwyddedu Gwaith Ffordd' a gofynnodd faint o bwysau ydym yn ei roi ar Lywodraeth Cymru i gael ateb. Eglurodd y Prif Weithredwr ei fod bron â bod yn embaras faint o amser yr oedd hwn wedi bod yma. Ei farn bersonol ef oedd y dylid ei dynnu allan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, gan mai cynllun cenedlaethol oedd y syniad diweddaraf. Nid oedd cynnydd penodol.

